# CYLCHOEDD DYSGU    *LEARNING CIRCLES*

## Beth ydynt?  *What are they?*

Yn Ysgol Gwenffrwd rydym yn dysgu mewn Cylchoedd Dysgu.  Cylch Dysgu yw cylch o ddwy flynedd sef yr Uned dan 5 (Dosbarth Meithrin a Dosbarth Derbyn), yr Uned dan 7 (Blwyddyn 1 a 2), Cylch Dysgu Bl. 3 a 4; Cylch Dysgu Bl. 5 a 6.  O fewn y Cylch Dysgu mae'r tîm o staff yn cydweithio i gynllunio y cwricwlwm, i'w gyflwyno i'r disgyblion, ac asesu yn barhaus, fel un tîm.  Mae 2 ddosbarth cymysg yn cael eu cofrestru o fewn pob Cylch Dysgu, ac unwaith mae'r cofrestru wedi digwydd, mae'r disgyblion o fewn yr uned/ Cylch Dysgu yn cymysgu mewn gwahanol grwpiau dysgu yn ystod y dydd e.e.  grwpiau llyhtrennedd/ rhifedd, grwpiau garddio, grwpiau Llês ayb.

*At Ysgol Gwenffrwd we learn in 'Cylchoedd Dysgu'/ Learning Circles.  A learning Circle comprises of 2 year groups, which are the Uned dan 5/ Under 5s unit; Uned dan 7/ Under 7s unit, Years 3 & 4; Years 5 & 6.  Within these Learning Circles the staff work together to plan the curriculum, to deliver learning opportunities and to continuously assess all pupils, as one team.  There are 2 mixed registration classes in each Learning Circle, and once registration has taken place, the pupils mix in different groups within the school day e.g.  a literacy/ numeracy group, a gardening group or a Wellbeing group etc.*

## Sut mae'r Cylchoedd Dysgu yn cael eu trefnu a pha gwricwlwm a gyflwynir?

## *How are the Learning Circles organised and what is the curriculum introduced within them?*

Mae'r disgyblion yn cael eu trefnu yn y dosbarth cofrestru yn ôl dyddiadau geni. Mae hyn yn sicrhau dosbarthiadau cyfartal o ran niferoedd. Fel a nodwyd eisoes, unwaith i'r cofrestru ddigwydd bydd y plant yn cael eu trefnu mewn gwahanol grwpiau drwy gydol y dydd. Mae cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno i Gymru fis Medi 2022 ac edrychwn ymlaen at gyflwyno y 6 maes dysgu sef: Y Celfyddydau Mynegianol; Iechyd a Llês; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yn ogystal â hyn, mae gofynion 'Cydberthynas a Rhywioldeb' i'w cyflwyno, ynghyd â 'Crefydd, Gwerthoedd, Moeseg'. Fel y gwelwch, bydd digon i'w wneud!

*The pupils are organised into Learning Circles according to dates of birth. This ensures equal class sizes. As previously mentioned, once the registration period has happened, then pupils are organised in different mixed groups throughout the school day for different sessions. There is a new curriculum being introduced in Wales September 2022. We are looking forward to introducing the 6 areas of learning, namely: Expressive Arts; Health and Well-Being; Humanities; Languages, Literacy and Communication; Mathematics and Numeracy; and Science and Technology. In addition, there are also the requirement to introduce the 'Positive Relationships and Sexuality' expectations, as well as 'Religion, Values and Ethics'. As you can see, we have plenty to plan for!!*